| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Cefnogi Pontio - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | [*Asesiad effaith /* Impact assessment] |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<table>
<tr><td>Perchennog y Ddogfen:<br>Document Owner:</td><td colspan="3">Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager</td></tr>
<tr><td>Ymgynghoriad/<br>Consultation:</td><td colspan="3">Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa</td></tr>
<tr><td rowspan="6">Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved</td><td colspan="2">Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group</td><td>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:</td><td>22/01/2025</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td colspan="2">Corff Llywodraethu / Governing Body:</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:<br>Review Date:</td><td colspan="3">31/01/2028</td></tr>
</table>

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu]
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form]

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Cynorthwyo â Newid**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniadau | 2 |
| 2. | Cynorthwyo gyda newid yn y feithrinfa | 2 |
| 3. | Gweithdrefn newid ystafelloedd | 2 |
| 4. | Dechrau yn yr ysgol | 3 |
| 5. | Chwâl teuluol | 3 |
| 6. | Symud cartref a brodyr a chwiorydd newydd | 3 |
| 7. | Profedigaeth | 3 |


**1. Cyflwyniadau**

Gall plant brofi sawl newid yn eu blynyddoedd cynnar ac mae staff y feithrinfa yn sensitif i'r anawsterau gallai plant eu profi wrth fynd trwy'r newidiadau hynny.

Rhai enghreifftiau o'r newidiadau y gallai plant ifanc a babanod eu profi yw:

1.1 Dechrau yn y feithrinfa
1.2 Symud rhwng ystafelloedd gwahanol yn y feithrinfa
1.3 Dechrau yn yr ysgol neu newid meithrinfeydd
1.4 Chwâl teuluol
1.5 Brodyr a chwiorydd newydd
1.6 Symud tŷ
1.7 Marwolaeth aelod o'r teulu
1.8 Marwolaeth anifail anwes

Mae staff wedi cael eu hyfforddi i arsylwi eu plant allweddol ac o'i herwydd byddant yn sensitif i unrhyw newidiadau yn eu hymddygiad a'u personoliaeth. Gofynnwn yn barchus i rieni roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn amgylchedd y cartref a allai effeithio ar eu plentyn fel y gall staff fod yn ymwybodol o'r rhesymau y tu ôl i unrhyw newidiadau posibl yng nghymeriad y plentyn.

**2. Cynorthwyo gyda newid yn y feithrinfa**

2.1 Bydd y feithrinfa yn cynorthwyo pob plentyn yn y feithrinfa gydag unrhyw newid y gallant ei brofi. Os yw'r newid yn ymwneud a'r plentyn yn dechrau yn y feithrinfa, byddwn yn dilyn ein polisi ymsefydlu. Os yw'r newid i fod i ddigwydd yn y feithrinfa, e.e. newid ystafelloedd, bydd y feithrinfa yn llwyr gefnogi'r plentyn trwy'r broses hyn yn y modd canlynol:

**3. Gweithdrefn newid ystafelloedd:**

3.1 Os yw plentyn i fod i newid ystafelloedd oherwydd ei oedran a'i fod yn barod o ran ei ddatblygiad, byddwn yn cydweithio' a'r rhieni i sicrhau ei bod yn broses ddi-dor y bydd y plentyn yn cael ei gefnogi'n llwyr ym mhob cam
3.2 Bydd y plentyn yn treulio sesiynau byr yn eu hystafell newydd cyn symud yno'n barhaol i'w galluogi i deimlo'n gyfforddus yn ei amgylchedd newydd
3.3 Bydd gweithiwr allweddol y plentyn yn mynd gyda'r plentyn ar yr ymweliadau dechreuol hyn fel bod wyneb cyfarwydd yno bob amser
3.4 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd grwpiau ffrindiau'n symud gyda'i gilydd i alluogi cynnal y cyfeillgarwch hwn a chynorthwyo'r plant gyda chyfoedion maent yn eu hadnabod
3.5 Rhoddir gwybod i rieni am bob ymweliad a chanlyniadau'r sesiynau hyn e.e. trwy luniau, trafodaethau neu gofnodion dyddiadur
3.6 Dim ond pan fydd y plentyn wedi ymgartrefu trwy'r sesiynau 'rhagflas' hyn y bydd symud parhaol i'r ystafell newydd yn digwydd. Petai angen rhagor o gymorth ar blentyn, bydd hyn yn cael ei drafod rhwng yr unigolyn allweddol, rhiant, rheolwr ac arweinydd ystafell yr ystafell newydd i alluogi hynny i ddigwydd.

**4. Dechrau yn yr ysgol**

4.1 Mae dechrau yn yr ysgol yn newid mawr a bydd y feithrinfa yn gwneud popeth y gall ei wneud i hwyluso'r newid. Mae gennym amrywiaeth o ddulliau i gynorthwyo hynny:

4.2 Bydd y feithrinfa'n darparu amrywiaeth o adnoddau sy'n berthnasol i'r ysgol, e.e. gwisg i'w' gwisgo, ardal chwarae rôl wedi ei gosod fel ystafell ddosbarth mewn ysgol, lluniau o'r holl ysgolion y gallai'r plant fynd iddynt. Bydd hyn yn cynorthwyo'r plant i ddod yn gyfarwydd â'r cysyniad newydd hwn a chynorthwyo'r newid.
4.3 Bydd y feithrinfa yn gwahodd cynrychiolwyr o ysgolion i'r feithrinfa i'w cyflwyno i'r plant.
4.4 Bydd y gweithiwr allweddol yn dechrau sgyrsiau gyda'u plant allweddol, sydd i fod i symud i ysgol, am yr ysgol a thrafod beth allai fod yn wahanol a beth allai fod yr un fath yn eu barn nhw. Byddant yn trafod unrhyw bryderon a allai fod gan y plentyn a dechrau gweithgareddau neu drafodaethau grŵp sy'n ymwneud ag unrhyw faterion gan alluogi goresgyn y rhain
4.5 Bydd y feithrinfa'n sicrhau llunio adroddiad cynhwysfawr ar gyfer pob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol i alluogi athrawon ddeall yn dda pob plentyn sy'n symud i'r ysgol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys diddordebau'r plentyn, ei gryfderau, ei lefel dealltwriaeth a'i ddatblygiad mewn meysydd allweddol. Bydd hyn yn cynorthwyo dilyniant gofal a dysgu cynnar.

**5. Chwâl teuluol**

5.1 Mae'n sefyllfa anodd i bawb pan fo rhieni yn gwahanu. Mae'r feithrinfa'n deall bod llawer o emosiynau'n rhan o hyn. Darllenwch y polisi teulu wedi gwahanu sy'n dangos sut fydd y feithrinfa'n gweithredu er budd gorau'r plentyn.

**6. Symud cartref a brodyr a chwiorydd newydd**

6.1 Mae'r rhain fel arfer yn ddau ddigwyddiad y bydd rhieni'n gwybod amdanynt ymlaen llaw, a gofynnwn i rieni roi gwybod i'r feithrinfa am y digwyddiadau hyn fel ein bod yn gallu cynorthwyo'r plentyn i fod yn barod at hynny. Byddwn yn treulio amser yn siarad â'r plentyn a darparu gweithgareddau a allent helpu'r plentyn i ddatgelu unrhyw bryderon sydd ganddynt, e.e. trwy chwarae rôl, storïau a thrafodaethau.
6.2 Efallai bydd rhieni'n ystyried rhoi eu plentyn yn y feithrinfa ar gyfer sesiynau ychwanegol yn ystod y digwyddiadau hyn i ddarparu cysondeb ac amser oddi wrth y newidiadau sy'n digwydd.

**7. Profedigaeth**

7.1 Mae'r feithrinfa wedi llunio polisi ar wahân ar gyfer profedigaeth gan y gall fod yn amser anodd i blant a'u teuluoedd. Bydd y feithrinfa'n cynnig cefnogaeth i bawb dan sylw pe bai angen hynny.

7.2 Pe bai rhieni'n teimlo bod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn oherwydd unrhyw newid yn ei fywyd, gofynnwn eich bod yn siarad â Rheolwr y Feithrinfa a'r unigolyn allweddol i alluogi rhoi'r cymorth hwn ar waith.